



PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

[Cymraeg](#)

Dear Applicant,

Thank you for your interest in the role of Chair of our Board of Trustees.

The enclosed set of information is designed to give you a fuller picture of what the post involves and information about Children in Wales.

The job description is designed to summarise clearly the scope and responsibilities of the post and should be read thoroughly. The purpose of the person specification is to state, as precisely as possible, the minimum skills, experience and knowledge applicants must have to meet the requirements of the post. Again, it is essential that you read this carefully and address your application to the criteria contained in the person specification. Failure to do so will considerably reduce your chances of being selected for interview.

To apply for this position, please send to me at vacancies@childreninwales.org.uk:

- A CV, preferably not exceeding five A4 pages in length
- A personal statement of reasons for applying for the vacancy (no more than one side of A4)
- Contact details for two referees – references will be taken up after short-listing but prior to interview (please indicate if this is not acceptable)
- To help us monitor whether we are reaching a wide range of candidates, we would be very grateful if you would kindly complete this anonymous [Equal Opportunity Monitoring Form](#)
- The successful applicant will be asked to undertake a DBS check and other checks in line with Charity Law.

The deadline for receipt of completed applications is **Wednesday, 31st August 2022**. Interviews for short-listed applicants will take place during September and the successful candidate will take up post from the forthcoming Annual General Meeting on 12 October 2022. If, after reading the enclosed documentation, you wish to discuss this vacancy in more detail please contact me by email: owen.evans@childreninwales.org.uk

I would like to thank you for your interest in our organisation and this post and I look forward to receiving your completed application.

Yours sincerely,

Owen Evans
Chief Executive

JOB DESCRIPTION

Chair of the Trustee Board

This job description is to be read in conjunction with the person specification for the Chair of the Trustee Board.

Responsibilities:

The Chair of the Board is responsible to the Board and membership for the leadership of the Board, governance and strategic direction of the organisation.

1. Overall purpose:

- 1.1. To provide leadership and direction to the Board, enabling trustees to fulfil their responsibilities for the overall governance and strategic direction of the charity.
- 1.2. To develop and communicate the organisation's culture, aims and objectives in accordance with the statutes, legal and regulatory guidelines.
- 1.3. To ensure there is an effective relationship between the Board and the staff and to work in partnership with the Chief Executive to help the achievement of the objectives set for the organisation.

2. Working in partnership with the Chief Executive:

- 2.1. To establish a close working relationship of trust with the Chief Executive, providing and receiving mutual support and advice. The relationship should respect each other's responsibilities in respect of managing and leading the organisation.
- 2.2. In conjunction with the Chief Executive:
 - 2.2.1. Plan meetings of the Board and set forward looking agendas that concentrate on strategic matters and cover all necessary business efficiently and effectively.
 - 2.2.2. Organise annual, special and extraordinary meetings as necessary.
 - 2.2.3. Ensure that Board members receive accurate, timely and clear information, in particular about the organisation's performance, to enable the Board to take sound decisions, monitor performance effectively and to promote the success of the organisation.
 - 2.2.4. Manage meetings to ensure that Board members are not faced with unrealistic deadlines for decision-making and that sufficient time is allowed for discussion of complex or content issues.

- 2.2.5. Ensure that Board decisions are acted upon and the charity is managed in an effective manner.
- 2.2.6. To help to promote the organisation to the wider audience of potential donors and beneficiaries.
- 2.2.7. To ensure that appropriate goals are set for the resources (personnel, financial, material) available;
- 2.2.8. To ensure in conjunction with the Board that any vacancy in the office of Chief Executive is filled in a timely and orderly manner.
- 2.3. With the Board, to appraise the performance of the Chief Executive.

3. Governance, strategic direction, aims and objectives

- 3.3. Promote and ensure the highest standards of corporate governance in accordance with the regulatory framework.
- 3.4. Ensure the organisation's financial dealings are prudently and systematically accounted for, audited and publicly available;
- 3.5. Ensure the organisation has a satisfactory system for holding in trust for the beneficiaries of the charity any moneys or property and to ensure that moneys are invested to the greatest benefit of the organisation, within the constraints of the law and ethical practices;
- 3.6. Ensure the organisation has a plan for its future success, the development of its services and that it is adequately resourced.
- 3.7. Ensure there are appropriate monitoring mechanisms in order to achieve plans and monitor progress.

4. Communication and culture

- 4.1 Promote the charity's values and culture internally and externally, acting as a spokesperson and representing the organisation at appropriate events.
- 4.2 Ensure that Trustee Board members develop an understanding of the views of members and the major stakeholders
- 4.3 Promote and uphold the highest standards of integrity and probity.
- 4.4 Maintain contact with Trustee Board members to ensure that their issues and concerns are fully taken into account when setting agendas.

5. Board meetings

- 5.1 Ensure that the Trustee Board fulfils its obligations as set out in the Trustee Board members' job description.

- 5.2 Set the style and tone of Trustee Board discussions to promote effective decision-making and constructive debate.
- 5.3 Promote effective relationships and open communication between Board members and the executive team.
- 5.4 Chair Board meetings.
- 5.5 Exercise the Chair's authority in an emergency, in consultation with the Chief Executive and where practical, with Trustee Board members by telephone or e-mail. The action taken must be reported to the next Board meeting.

6. Board development

- 6.1 Ensure the effectiveness of the Board as a team by taking the lead in promoting the need for and ensuring the delivery of:
 - Board member induction;
 - identification and delivery of individual training and development needs;
 - appraisal of the performance of individual Board members, the Board as a whole and its committees annually; and in conjunction with the Chief Executive:
 - Ensure those are facilitated comprehensively, formally and timely and are tailored to the needs of the organisation the Board and individual members.
- 6.2 Encourage active engagement by all members of the Board.
- 6.3 In addition to the democratic elections, build an effective and complementary Board and initiate a plan for succession of Chair of the Board

PERSON SPECIFICATION

Chair of the Trustee Board

This person specification is to be read in conjunction with the job description for the Chair of the Trustee Board.

Knowledge/Experience

- Strategic leadership at a senior level in a substantial organisation in the academic, statutory or not for profit sector or considerable experience in public office
- Significant non-executive or trustee experience on a board of management or similar governing body of an organisation of similar size
- Financial acumen
- Clear understanding of the relative roles of trustees and officers
- Understanding of the political process

Skills, abilities and personal qualities

The skills, abilities and personal qualities of the Chair include:

- Demonstrable commitment to children's rights and interests
- Ability to command respect and confidence from senior figures in the children, young people and families field from a range of sectors and disciplines
- Ability to analyse and evaluate proposals for strategic direction
- Identification of important issues
- Effective contribution to the decision-making process
- Ability to lead the Board and to represent the organisation
- Ability to chair meetings effectively ensuring impartiality and fairness
- Ability to get all members to contribute to discussions and to ensure the contributions of all board members are considered
- Ability to prioritise important issues ensuring sufficient time is devoted to debating them
- Ability to speak effectively and with independence on public platforms.
- Political sensitivity
- Ability to communicate through the medium of Welsh is desirable

Time Commitment

The position of Chair requires a moderate time commitment. Formal meetings of the Board currently take place quarterly, but the Chair is also a member of the Policy Council and the Finance & Human Resources Committee. There are also meetings with the Chief Executive, representation at other strategic level working groups and occasional conferences/events to chair, including the Annual General Meeting. A minimum commitment to attend at least 12 meetings per year is anticipated.

The Chair of the Board of Trustees of Children in Wales should become either an individual or their organisation should become a member of Children in Wales.

Building a Wales where all children and young people have all their rights fulfilled

Adeiladu Cymru lle mae holl hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cyflawni

Children in Wales – Plant yng Nghymru is the national representative membership organisation for individuals and organisations from all sectors who work with children, young people and families in Wales. Our membership is drawn from the public-, charitable/not-for-profit- and independent-sectors. Our work will be underpinned by a collaborative approach, which facilitates opportunities for our members, children and young people.

We will work towards our vision in collaboration with our members by:

- Campaigning for the full adoption and implementation of the United Nations Convention on the Rights of the Child at every level of Welsh society.
- Challenging inequalities and promoting equity for all children and young people across Wales.
- Bringing together and amplifying a collective voice for transformational change at a policy level within Wales.
- Promoting and supporting the participation of children and young people within decision-making structures at all levels of government within Wales
- Providing a platform for the sharing of innovative practice across Wales.
- Advocating for the children's sector(s) on priority areas.
- Providing learning and development opportunities for the cross-sector children's professional workforce.
- Undertaking and disseminating research across our membership.

Background information

Children in Wales was established in May 1993 as a registered charity. Since then, the organisation has played a fundamental role in supporting and improving the lives of all our children, young people and their families. In collaboration with our members and partners, we have influenced and guided the Government in Wales on key issues such as the United Nations Convention on the Rights of the Child and the establishment of the office of the Children's Commissioner for Wales, to protect those rights. We have worked to improve service delivery wherever it impacts on children and their needs.

The organisation has expanded to include Young Wales, that brings together youth forums from across the country. Through them, we will continue to provide a direct platform for the



voice of children and young people to be heard and acted upon not only in Wales, but across the UK, Europe and in the United Nations itself. Participation is key to our success.

That voice would not have been nearly so influential without the work of Children in Wales, but the need to ensure the rights of children and to identify and offer solutions to their needs, has never been so great. Our organisation is working to coordinate the public, voluntary and academic responses across the children's sector, on a host of pressing issues such as child poverty, children's mental health, and the possible repercussions of Brexit and the effects of Covid-19. It is a membership body, with both individuals and organisations meeting regularly on its Policy Council and at a wide range of professional networks, such as the End Child Poverty Network, which it facilitates to discuss that work.

The Chief Executive and staff are supported by a committed Trustee Board that contains a wealth of skills and experience from across many personal and professional backgrounds. A Board of Trustees governs the work of the organisation. The Policy Council, the Trustee Board and its subcommittees meet regularly, and we host a range of one-off events and webinars throughout the year. The training we offer ensures that our advice and skill reaches all those working with children and their needs in Wales.

Children in Wales has strong links with similar organisations in England, Scotland and Northern Ireland as well as in Europe and internationally.

Our work is funded by grants from a range of sources, including the Welsh Government, and through self-generated income.

You can read our Articles of Association [here](#).

Find out more at our website: www.childreninwales.org.uk

Trustee Board: July 2022

Dave Williams (Chair)
Suman Bhogal (Treasurer)

Fateha Ahmed
Cherrie Bija
Sarah Crawley
Deborah Jones
Helen Mary Jones
Jackie Murphy
Patrick Thomas
Bethan Webber
Jenny Williams

Co-opted Trustees

Nia John



PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb yn rôl Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Bwriad yr wybodaeth amgaeedig yw rhoi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl â phosib, yr isafswm o ran sgiliau, profiad a gwybodaeth y mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu arnynt i gyflawni gofynion y swydd. Eto, mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn ymdrin â'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu eich bod yn llawer llai tebygol o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

I wneud cais am y swydd hon, dychwelwch y canlynol i mi yn vacancies@childreninwales.org.uk :

- CV, heb fod dros 5 tudalen A4 o hyd os oes modd
- Datganiad personol yn nodi eich rhesymau dros wneud cais am y swydd (dim mwy nag un ochr A4)
- Manylion cyswllt dau ganolwr – byddwn yn gofyn am eiradaon ar ôl llunio'r rhestr fer, ond cyn y cyfweliad (gofynnir i chi nodi os nad yw hyn yn dderbyniol)
- I'n helpu i fonitro a ydym yn cyrraedd ystod eang o ymgeiswyr, byddem ni'n ddiolchgar iawn os gallech chi lenwi'r [Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal](#) hon yn ddienw.
- Gofynnir i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau gwiriad DBS a gwiriadau eraill yn unol â Chyfraith Elusennau.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gorffenedig yw **dydd Mercher, 31 Awst 2022**. Cynhelir cyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer yn ystod mis Medi, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cychwyn yn y swydd o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 12 Hydref 2022. Os hoffech chi drafod y swydd hon yn fanylach, ar ôl darllen y dogfennau amgaeedig, cysylltwch â fi drwy e-bostio: owen.evans@childreninwales.org.uk

Hoffwn ddiolch i chi am eich diddordeb yn ein sefydliad a'r swydd hon, ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais gorffenedig.

Yn gywir,

Owen Evans
Prif Weithredwr

DISGRIFIAD SWYDD

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'r disgrifiad swydd hwn i gael ei ddarllen ochr yn ochr â manyleb person Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Cyfrifoldebau:

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn atebol i'r Bwrdd a'r aelodau am arweinyddiaeth y Bwrdd, ei lywodraethiant a chyfeiriad strategol y sefydliad.

1. Diben cyffredinol:

- 1.1 Rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r Bwrdd, gan alluogi'r ymddiriedolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran llywodraethiant cyffredinol a chyfeiriad strategol yr elusen.
- 1.2 Datblygu a chyfleu diwylliant, nodau ac amcanion y sefydliad, yn unol â'r statudau a'r canllawiau cyfreithiol a rheoliadol.
- 1.3 Sicrhau bod perthynas effeithiol rhwng y Bwrdd a'r staff a gweithio mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr i helpu i gyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer y sefydliad.

2. Gweithio mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr:

- 2.1 Sefydlu perthynas waith agos, lawn ymddiriedaeth gyda'r Prif Weithredwr, lle rhoddir a derbynnir cefnogaeth a chynghor o'r ddeutu. Dylai'r berthynas barchu cyfrifoldebau'r naill a'r llall o ran rheoli ac arwain y sefydliad.
- 2.2 Ar y cyd â'r Prif Weithredwr:
 - 2.2.1 Cynllunio cyfarfodydd y Bwrdd a gosod agendâu sy'n edrych i'r dyfodol, yn canolbwyntio ar faterion strategol ac yn cwmpasu'r holl faterion angenrheidiol yn effeithiol ac yn effeithlon.
 - 2.2.2 Trefnu cyfarfodydd blynyddol, arbennig ac eithriadol yn ôl y galw.
 - 2.2.3 Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth gywir, amserol a chlir, yn arbennig am berfformiad y sefydliad, er mwyn galluogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau cadarn, monitro perfformiad yn effeithiol, a hybu llwyddiant y sefydliad.
 - 2.2.4 Rheoli cyfarfodydd i sicrhau nad yw aelodau'r Bwrdd yn wynebu terfynau amser afresymol wrth wneud penderfyniadau a bod digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer trafod materion cymhleth neu gynnwys.
 - 2.2.5 Sicrhau bod gweithredu ar sail penderfyniadau'r Bwrdd, a bod yr elusen yn cael ei rheoli mewn modd effeithiol.

- 2.2.6 Helpu i hyrwyddo'r sefydliad ymhlith y gynulleidfa ehangach o ddarpar gyfranwyr a buddiolwyr.
 - 2.2.7 Sicrhau bod nodau priodol yn cael eu pennu ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael (personél, ariannol, deunyddiau);
 - 2.2.8 Ar y cyd â'r Bwrdd, sicrhau bod swydd y Prif Weithredwr yn cael ei llanw yn brydlon ac yn drefnus, unrhyw bryd y bydd yn wag.
- 2.3 Gyda'r Bwrdd, arfarnu perfformiad y Prif Weithredwr.

3. Llywodraethiant, cyfeiriad strategol, nodau ac amcanion

- 3.1 Hyrwyddo a sicrhau'r safonau uchaf o lywodraethiant corfforaethol, yn unol â'r fframwaith rheoliadol.
- 3.2 Sicrhau atebolrwydd darbodus a systematig ynghylch trafodion ariannol y sefydliad, eu bod yn cael eu harchwilio, a'u bod ar gael i'r cyhoedd;
- 3.3 Sicrhau bod gan y sefydliad system foddhaol ar gyfer dal unrhyw arian neu eiddo mewn ymddiriedolaeth ar gyfer buddiolwyr yr elusen, a sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi er budd mwyaf y sefydliad, oddi mewn i gyfyngiadau'r gyfraith ac arferion moesegol;
- 3.4 Sicrhau bod gan y sefydliad gynllun ar gyfer ei lwyddiant yn y dyfodol, datblygiad ei wasanaethau, a bod ganddo adnoddau digonol.
- 3.5 Sicrhau bod systemau monitro priodol ar waith i gyflawni cynlluniau a monitro cynnydd.

4 Cyfathrebu a diwylliant

- 4.1 Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant yr elusen yn fewnol ac yn allanol, gan weithredu fel llefarydd a chynrychioli'r sefydliad mewn digwyddiadau priodol.
- 4.2 Sicrhau bod aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn datblygu dealltwriaeth o farn yr aelodau a'r prif randdeiliaid.
- 4.3 Hyrwyddo a chynnal y safonau uchel o ran uniondeb a chywirdeb.
- 4.4 Cadw mewn cysylltiad ag aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod eu materion a'u pryderon yn derbyn ystyriaeth lawn wrth bennu agendâu.

5. Cyfarfodydd y Bwrdd

- 5.1 Sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyflawni ei rwymedigaethau fel a nodir yn nisgrifiad swydd aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- 5.2 Gosod naws ac arddull trafodaethau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn hyrwyddo penderfyniadau effeithiol a dadleuon adeiladol.

- 5.3 Hyrwyddo perthnasoedd effeithiol a chyfathrebu agored rhwng aelodau'r Bwrdd a'r tîm gweithredol.
- 5.4 Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd.
- 5.5 Ymarfer awdurdod y Cadeirydd mewn argyfwng, gan ymgynghori â'r Prif Weithredwr a, lle bo'n ymarferol, aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy ffôn, ffacs neu e-bost. Rhaid adrodd ar y camau a gymerwyd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

6. Datblygiad y Bwrdd

- 6.1 Sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd fel tîm trwy arwain y gwaith o hybu'r angen am y canlynol a sicrhau eu bod yn cael eu darparu:
- hyfforddiant sefydlu i aelodau'r Bwrdd;
 - nodi a darparu anghenion hyfforddi a datblygu unigol;
 - arfarnu perfformiad aelodau unigol y Bwrdd, y Bwrdd yn ei grynsyth a'i bwyllgorau yn flynyddol; ac ar y cyd â'r Prif Weithredwr:
- sicrhau bod y rheiny yn cael eu hwyluso'n drwyadl, yn ffurfiol ac yn amserol, ac wedi eu teilwra at anghenion y sefydliad, y Bwrdd a'r aelodau unigol.
- 6.2 Annog ymgysylltu gweithredol gan holl aelodau'r Bwrdd.
- 6.3 Yn ogystal â'r etholiadau democrataidd, adeiladu Bwrdd effeithiol, cydweddus, a sefydlu cynllun ar gyfer olyn Cadeirydd y Bwrdd.

MANYLEB PERSON

Cadeirydd Bwrdd Yr Ymddiriedolwyr

Mae'r manyleb person hwn i gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r disgrifiad swydd ar gyfer Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Gwybodaeth/Profiad

- Arweinyddiaeth strategol ar lefel uwch mewn sefydliad sylweddol yn y sector academaidd, statudol neu nid er elw, neu gryn brofiad mewn swydd gyhoeddus
- Profiad sylweddol anweithredol neu fel ymddiriedolwr ar fwrdd rheoli neu gorff rheoli tebyg sefydliad o faint tebyg
- Craffter ariannol
- Dealltwriaeth glir o rolau cymharol ymddiriedolwyr a swyddogion
- Dealltwriaeth o'r broses wleidyddol

Sgiliau, galluedd a nodweddion personol

Mae sgiliau, galluedd a nodweddion personol y Cadeirydd yn cynnwys y canlynol:

- Ymrwymiad gweladwy i hawliau a fuddiannau plant
- Gallu i hawlio parch ac ymddiriedaeth ffigurau uwch ym maes plant, pobl ifanc a theuluoedd, o amrywiaeth o sectorau a disgyblaethau
- Gallu i ddadansoddi a gwerthuso cynigion ar gyfer cyfeiriad strategol
- Adnabod materion pwysig
- Cyfraniad effeithiol i'r broses o wneud penderfyniadau
- Gallu i arwain y Bwrdd ac i gynrychioli'r sefydliad
- Gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, gan sicrhau tegwch ac ymdriniaeth ddiduedd
- Gallu i sicrhau bod yr holl aelodau yn cyfrannu at drafodaethau a bod cyfraniadau holl aelodau'r bwrdd yn derbyn sylw
- Gallu i flaenoriaethu materion pwysig, gan sicrhau bod amser digonol yn cael ei neilltuo ar gyfer eu trafod

- Gallu i siarad yn effeithiol ac yn annibynnol ar lwyfannau cyhoeddus
- Sensitifrwydd gwleidyddol
- Byddai gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol

Ymrwymiad Amser

Mae swydd y Cadeirydd yn galw am ymrwymiad amser cymedrol. Ar hyn o bryd cynhelir cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd bob chwarter, ond mae'r Cadeirydd hefyd yn aelod o'r Cyngor Polisi a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol. Ar ben hynny cynhelir cyfarfodydd gyda'r Prif Weithredwr, ceir cynrychiolaeth ar weithgorau eraill lefel strategol, a bydd angen cadeirio cynadleddau/digwyddiadau yn achlysurol, gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Rhagwelir y bydd angen ymrwymo i fynychu o leiaf 12 o gyfarfodydd y flwyddyn.

Dylai Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru naill ai ymaelodi fel unigolyn neu dylai ei sefydliad ddod yn aelod o Plant yng Nghymru.

Building a Wales where all children and young people have all their rights fulfilled

Adeiladu Cymru lle mae holl hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cyflawni

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r sefydliad aelodaeth cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Sylfaen ein gwaith fydd dull gweithredu cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, plant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at ein gweledigaeth mewn cydweithrediad â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgychu dros fabwysiadu a gweithredu'n llawn Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar bob lefel yng nghymdeithas Cymru.
- Herio anghydraddoldebau a hybu tegwch i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru.
- Dod â llais torfol ynghyd o blaid newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru a'i chwyddo.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu platfform ar gyfer rhannu arfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant ar feysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Cyflawni a lledaenu ymchwil ar draws ein haelodaeth.

Gwybodaeth gefndir

Sefydlwyd Plant yng Nghymru ym mis Mai 1993 fel elusen gofrestredig. Ers hynny, mae'r sefydliad wedi chwarae rôl hanfodol yn cefnogi a gwella bywydau ein holl blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mewn cydweithrediad â'n haelodau a'n partneriaid, rydym wedi dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhoi arweiniad iddi ar faterion allweddol fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a sefydlu Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, er mwyn diogelu'r hawliau hynny. Rydym wedi gweithio i wella'r gwasanaeth a gyflwynir lle bynnag mae hynny'n effeithio ar blant a'u hanghenion.

Mae'r sefydliad wedi ehangu i gynnwys Cymru Ifanc, sy'n dod â fforymau ieuenctid ynghyd ar draws y wlad. Trwyddyn nhw, byddwn ni'n parhau i ddarparu llwyfan uniongyrchol ar gyfer clywed llais plant a phobl ifanc a gweithredu ar hynny, nid yng Nghymru'n unig, ond ar

draws y Deyrnas Unedig, Ewrop, ac yn y Cenhedloedd Unedig ei hun. Mae cyfranogiad yn allweddol i'n llwyddiant.

Ni fuasai'r llais hwnnw mor ddylanwadol o bell ffordd heb waith Plant yng Nghymru, ond ni fu'r angen am sicrhau hawliau plant a nodi a chynnig atebion i'w hanghenion erioed mor fawr. Mae ein sefydliad yn gweithio i gydlynur ymatebion cyhoeddus, gwirfoddol ac academiaidd ar draws y sector plant, a hynny ar lu o faterion pwysfawr megis tlodi plant, iechyd meddwl plant, a sgil-ffeithiau posibl Brexit ac effeithiau Covid-19. Mae'n gorff o aelodau, ac mae unigolion a sefydliadau yn cyfarfod yn rheolaidd ar ei Gyngor Polisi, ac mewn ystod eang o rwydweithiau proffesiynol, megis Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, y mae'n ei hwyluso er mwyn trafod y gwaith hwnnw.

Cefnogir y Prif Weithredwr a'r staff gan Fwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig sy'n cynnwys cyfoeth o sgiliau a phrofiad ar draws llawer o gefndiroedd personol a phroffesiynol. Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr. Mae'r Cyngor Polisi, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r is-bwyllgorau yn cwrdd yn rheolaidd, ac rydym ni'n cynnal ystod o ddigwyddiadau untro a gweminarau ar hyd y flwyddyn. Mae'r hyfforddiant rydym ni'n ei gynnig yn sicrhau bod ein cyngor a'n sgiliau yn cyrraedd pawb sy'n gweithio gyda phlant a'u hanghenion yng Nghymru.

Mae gan Plant yng Nghymru gysylltiadau cryf â sefydliadau tebyg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Ariannir ein gwaith â grantiau o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a thrwy incwm a gynhyrchir gennym ein hunain.

Cewch ddarllen ein Herthyglau Cymdeithasiad [yma](#).

Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan: www.childreninwales.org.uk

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr: Gorffennaf 2022

Dave Williams (Cadeirydd)

Suman Bhogal (Trysorydd)

Fateha Ahmed

Cherrie Bija

Sarah Crawley

Deborah Jones

Helen Mary Jones

Jackie Murphy

Patrick Thomas

Bethan Webber

Jenny Williams

Ymddiriedolwyr Cyfetholedig

Nia John